Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 4 Rhagfyr 2020:

TÎM AHO
Addysg Uwch
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Diwygio: PCET@llyw.cymru

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	Eich enw: James Harrison Eich sefydliad (os yn berthnasol): Quality Assurance Agency for Higher Education Eich cyfeiriad e-bost / rhif ffôn: j.harrison@qaa.ac.uk Eich cyfeiriad: Cambrian Building Mount Stuart Square Cardiff CF10 5FL

Cenhadaeth ddinesig

Mae'r Bil drafft (Adran 7(4)) yn diffinio "cenhadaeth ddinesig" fel "gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu a all gyflawni unrhyw un neu ragor o'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015".

1. A ydych chi'n cytuno y bydd y dull gweithredu yn y Bil drafft ar gyfer cenhadaeth ddinesig yn ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth arfer eu swyddogaethau?

X	**Ydw**		**Nac ydw**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ydym, gan ein bod yn cefnogi ymdrechion i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac rydym yn cydnabod y rôl allweddol y gall addysg drydyddol ei chyflawni i gefnogi'r ymdrechion hyn. Mae cydnabyddiaeth hefyd bod myfyrwyr o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac o dramor yn ymrestru ym mhrifysgolion Cymru, sy'n golygu bod eu cenhadaeth ddinesig yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau.

Anghenion y dysgwr

Diogelu dysgwyr

2. Bydd angen i'r Comisiwn bennu fformat a chynnwys Cynlluniau Diogelu Dysgwyr mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid (adran 114(6) a (7)), gan gynnwys sut i gyfathrebu'r cynlluniau i ddysgwyr a darpar ddysgwyr. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

☐	**Ydw**	☐	**Nac ydw**	☒	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Dim barn y naill ffordd na'r llall. Mewn egwyddor, rydym yn gefnogol i ddatblygu'r cynlluniau hyn trwy ymgynghoriad manwl â rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr addysg drydyddol, dysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr, er mwyn sicrhau y gall dysgwyr fod â hyder yn eu haddysg neu hyfforddiant pellach. Fodd bynnag, byddem yn croesawu canllawiau mwy penodol ar Adran 114(7) ynglŷn â phwy yn union y dylid ymgynghori â hwy, a byddem yn croesawu cyfeiriad at ymgynghori â dysgwyr er mwyn sicrhau y bydd eu llais yn cael ei glywed.

Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (adran 117)

3. Nod y Comisiwn fydd sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli, a bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyfrannu a rhannu eu barn. Ydych chi'n hyderus bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn debygol o gynnwys pob dysgwr, a chynrychioli'r sector ôl-16 cyfan yn ddigonol?

X	**Ydw**		**Nac ydw**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ydym. Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr arfaethedig gan ei bod yn iawn i ymgysylltu â dysgwyr fod wrth galon y gyfundrefn addysg drydyddol. Mae hyn yn darparu cyfle ar gyfer datblygiadau arwyddocaol ym maes ymgysylltu a dysgwyr yn y sector addysg bellach, ac rydym yn gobeithio y bydd y Cod yn gallu gweddu i anghenion dysgwyr ym mhob elfen o'r gyfundrefn drydyddol ac yn osgoi dull "un ateb i bawb". Mae gan brifysgolion siarteri myfyrwyr a mentrau eraill ar hyn o bryd a byddem yn croesawu cyfle i werthuso eu heffaith cyn i'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr gael ei ddatblygu, er mwyn osgoi dyblygu gwaith, ac er mwyn i'r sector drydyddol yn ei chyfanrwydd allu elwa o'r gwersi a ddysgwyd o'r mentrau hyn sydd ar droed. Bydd yn hanfodol i'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr gael ei ddatblygu mewn trafodaeth agos â'r sector trydyddol, ac iddo beidio â bod yn rhy fanwl neu benodol.

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) wedi gweithio mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, HEFCW a Prifysgolion Cymru yn y gorffennol trwy gynnull a chefnogi Menter Ymgysylltiad Myfyrwyr Cymru (WISE). Gweithiodd QAA gyda WISE hefyd mewn trafodaethau ynglŷn â'r prosesau adolygu ansawdd yng Nghymru, a sut y gall sefydliadau addysg uwch weithio mewn partneriaeth â'u myfyrwyr ar waith sy'n gysylltiedig ag adolygiadau. Byddai QAA yn barod i weithio gyda sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr eto yn y dyfodol wrth i'r Cod Ymgysylltu â Myfyrwyr gael ei ddatblygu a bwrw'i wreiddiau.

Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

4. Mae'r Bil drafft (adran 93) yn caniatáu i'r Comisiwn roi cyllid ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau i ddysgwyr yng Nghymru. A oes ystyriaethau pellach y dylid eu hystyried i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyngor neu ganllawiau i gefnogi llwybrau dysgu, pontio a chynnydd er mwyn eu galluogi i gyfrannu a llwyddo mewn cymdeithas deg a chynhwysol ac economi ffyniannus?

X	**Oes**		**Nac oes**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Oes. Rydym o'r farn y dylai'r Comisiwn geisio dysgu o arfer da yn y maes hwn o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae gan QAA brofiad diweddar o gefnogi llwybrau dysgu a phontio, gan fod y model Themâu Gwella yn Yr Alban, a reolir gan QAA, wedi cynnal prosiect 3-blynedd yn ddiweddar i edrych ar gefnogi myfyrwyr wrth iddynt bontio i mewn i, trwy, ac allan o addysg uwch[1], ac mae'n bosibl y byddai Cymru am ddysgu o'r prosiect hwnnw. Roedd y Thema Gwella Pontio Myfyrwyr yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau i gynorthwyo'r sector trydyddol gyda'r ffordd y maent yn rheoli camau pontio myfyrwyr ac fe gynhyrchwyd llawer o adnoddau ysgrifenedig y gellir eu gweld ar wefan y Themâu Gwella. Yn ychwanegol at hyn, mae QAA wedi datblygu canllawiau i ddarparwyr addysg uwch ar fentergarwch ac entrepreneuriaeth, sy'n agwedd arall ar daith y dysgwr y dylid ei hystyried wrth ddarparu gwybodaeth i ddysgwyr.

Rydym o'r farn y dylai'r Comisiwn ystyried comisiynu'r corff ansawdd dynodedig yn y dyfodol i gynnal gwaith i ystyried sut y gallant gefnogi a gwella profiadau cynnydd a phontio'r dysgwr. Cynigiwn y dylai'r bil gynnwys cyfeiriad at ddarpariaethau i alluogi'r corff ansawdd dynodedig at bwrpasau gwella profiadau dysgwyr.

Cynigion i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion

Bydd gan y Comisiwn rôl mewn perthynas ag ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion a gynhelir. Mae'r Bil drafft yn caniatáu i'r Comisiwn gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion ad-drefnu, neu ei gynigion ei hun, mewn amgylchiadau cyfyngedig. Byddai'r amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o'r fath yn destun ymgynghori ac yn cael eu cynnwys yn y diwygiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

5. A ydych chi'n cytuno mai'r Cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion yw'r cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer amlinellu'r systemau a'r prosesau ac a oes gennych unrhyw sylwadau ar yr amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o'r fath?

☐	**Ydw**	☐	**Nac ydw**	☒	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Cryfhau'r cydweithredu

6. Mae Rhan 3 o'r Bil drafft yn darparu swyddogaethau i gyllido chweched dosbarth ysgolion, addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a dysgu oedolion a hefyd dysgu ac arloesi sy'n gysylltiedig â darparwyr addysg. Yn eich barn chi, a oes unrhyw swyddogaethau cyllido neu swyddogaethau eraill ychwanegol a fyddai'n galluogi mwy o gydweithredu ar draws y sector addysg drydyddol?

X	**Oes**		**Nac oes**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Oes, yn debyg i'n hateb i gwestiwn 4, rydym o'r farn y gallai'r Comisiwn benderfynu caniatáu i'r corff ansawdd dynodedig weithio ar draws y sector trydyddol i gynnal ymchwil a hwyluso digwyddiadau er mwyn cefnogi a gwella ansawdd y profiad dysgu. Er enghraifft, mae gan QAA brofiad ers cryn amser o gydweithio ar draws y sector addysg uwch ym mhob cenedl yn y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio prosiectau â chyllid tymor hir i wella profiad myfyrwyr, a gallai mwy o waith wedi'i gyllido o'r math hwn yng Nghymru fod o fudd arwyddocaol i'r sector trydyddol, yn enwedig wrth iddo geisio dysgu gwersi o'r buddion posibl a ddaw yn sgil cynyddu'r cydweithio rhwng addysg bellach ac addysg uwch dros y blynyddoedd nesaf. Yn y gorffennol, byddai HEFCW yn darparu cyllid ar gyfer mentrau gwella yng Nghymru, gan gynnwys cyllid i gefnogi datblygiad Menter Ymgysylltiad Myfyrwyr Cymru (WISE); cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) ac, mewn partneriaeth â'r Academi Addysg Uwch, datblygu a lledaenu themâu ansawdd yng Nghymru, megis prosiectau a chynadleddau Cyfeiriadau'r Dyfodol.

Yn ogystal â hynny, ers dros ddwy flynedd ar bymtheg, mae Themâu Gwella'r Alban, gyda chefnogaeth Cyngor Cyllido'r Alban wedi galluogi sefydliadau addysg uwch i gydweithio ar brosiectau tair-blynedd, ar raddfa eang mewn meysydd ar gyfer gwella megis cyflogadwyedd a rhinweddau graddedigion; profiad y flwyddyn gyntaf; defnyddio tystiolaeth ar gyfer gwella; myfyrwyr yn pontio; a datblygu a chefnogi'r cwricwlwm. Yn yr Alban hefyd, gwelwyd prosiectau blynyddol dan yr enw "Focus On" sy'n galluogi'r sector gyfan i weithio ar feysydd datblygu sydd wedi'u nodi mewn adolygiadau sefydliadol, ar bynciau megis y profiad ar raglenni ôl-raddedig a addysgir a defnyddio technoleg wrth ddysgu ac addysgu. Rydym yn credu y byddai Cymru yn elwa'n fawr o gael cyllid wedi'i glustnodi er mwyn cael mentrau o'r fath i gefnogi'r sector addysg drydyddol.

Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai sefydlu'r Comisiwn (adran 8) yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg

8. Eglurwch hefyd os ydych yn teimlo y gellid newid y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Bil drafft ar gyfer sefydlu'r Comisiwn er mwyn cynyddu'r effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg

9. Beth yw eich barn am y dyletswyddau a osodir ar y Comisiwn mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg?

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Cofrestru

10. A yw'r cynigion ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Chyfle (adrannau 32-41) yn ddigonol i sicrhau bod gan y Comisiwn bwerau i ysgogi newid trawsffurfiol o ran ehangu mynediad a chyfle mewn addysg uwch?

☐	**Ydyn**	☐	**Nac ydyn**	☒	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Cofrestru

11. A fydd y pwerau arfaethedig i'r Comisiwn ar gyfer monitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cofrestru (adrannau 22-26) yn rhoi digon o hyblygrwydd iddo reoleiddio'n gymesur ac yn briodol?

☐	**Byddant**	☐	**Na fyddant**	X	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Dim barn y naill ffordd na'r llall. Mae gennym bryderon y gallai'r geiriad roi gormod o hyblygrwydd ac efallai y gellid gwella hyn trwy fod yn fwy penodol, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau ansawdd. Er bod 13(1)(a) yn y Bil yn nodi y byddai amod ar gyfer cofrestru yn y lle cyntaf fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fod yn fodlon ag ansawdd yr addysg drydyddol a gynigir, nid yw'r amodau cyffredinol na'r amodau penodol mewn perthynas â chofrestru parhaus yn cyfeirio at yr angen i barhau ag addysg o ansawdd uchel. Byddem yn croesawu cyfeiriad at addysg o ansawdd yn yr amodau cyffredinol neu'r amodau cofrestru parhaus, gyda'r corff ansawdd dynodedig yn darparu trosolwg.

Yn ychwanegol dylid bod yn fwy eglur ynglŷn â threfniadau trosglwyddo ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd, e.e. gan HEFCW, gan sicrhau bod y broses yn llyfn ac nad yw'n creu biwrocratiaeth ddiangen.

Ansawdd

12. Mae'r Bil drafft (adrannau 42-60) yn cynnig dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar gyfer ansawdd ac arolygu ar draws y sector addysg drydyddol. A yw'r trefniadau arfaethedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng adeiladu ar y trefniadau presennol mewn addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir, a gweithio tuag at dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar draws y sector addysg drydyddol?

X	**Ydyn**		**Nac ydyn**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ydyn, ac rydym yn croesawu'r cyfle a ddaw yn sgil y cynigion hyn i gyflwyno dull gweithredu mwy cydweithredol a chydlynus ar gyfer sicrhau ansawdd ar draws addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r dull gweithredu arfaethedig yn caniatáu i gyrff arbenigol gwahanol ganolbwyntio ar eu meysydd arbenigol penodol mewn addysg uwch ac addysg bellach, ond byddem yn croesawu'r cyfle i'r cyrff hyn gydweithio ymhellach yn y dyfodol a thrwy'r Comisiwn er mwyn dysgu o'r arferion gorau yn nhermau sicrhau a gwella ansawdd profiad myfyrwyr, a helpu i hwyluso trefniadau pontio llyfn rhwng elfennau unigol, uchel eu hansawdd y system addysg drydyddol.

Rydym yn croesawu'r cynigion y dylid galluogi'r Comisiwn i ddatblygu fframweithiau sicrhau ansawdd. Hoffem weld 42(4) yn cael ei chryfhau fodd bynnag, er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r corff ansawdd addysg uwch dynodedig (fel y'i cynigir yn y bil) a myfyrwyr neu gynrychiolwyr myfyrwyr wrth i'r fframweithiau sicrhau ansawdd hyn gael eu datblygu. Bydd hyn yn helpu sicrhau y bydd fframweithiau ansawdd y dyfodol yn adlewyrchu holl anghenion a dyheadau'r sector addysg drydyddol gyfan yng Nghymru.

Yn adran 46 y bil drafft, rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer cynnal asesiadau ansawdd addysg uwch gydag ysbeidiau rhyngddynt yn cael eu nodi yn y rheoliadau arfaethedig. Credwn y byddai'r bil yn cael ei gryfhau ymhellach trwy gyfeirio yn 46(5) at y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) yn enwedig Safon 1.10 ESG sy'n nodi "Dylai sefydliadau fod y destun proses sicrhau ansawdd allanol yn unol â'r ESG ar sail gylchol." Gallai hynny gryfhau enw da Cymru ar lefel Ewrop.

Rydym yn gefnogol ar y cyfan i'r cynigion yn Atodlen 3 i greu corff dynodedig i gyflawni swyddogaethau asesu ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, er bod mannau ble byddem yn croesawu eglurhad pellach pan gyhoeddir y bil yn y dyfodol. Fel y nodwyd gennym mewn ymatebion i rannau eraill o'r bil drafft, hoffem weld gofynion mwy penodol ar gyfer ymgynghori â myfyrwyr yn rhan o'r broses. Bydd y broses ymgynghori wrth bennu corff dynodedig yn allweddol er mwyn sicrhau y dewisir corff y mae'r sector yn ymddiried ynddo ac y mae ganddynt hyder ynddo, gan olygu y byddant yn fwy tebygol o gydweithio a bod yn dryloyw ac yn agored.

Yn ogystal, nid yw Atodlen 3 yn nodi pa mor hir y gallai cyfnod dynodi barhau, nac yn dweud a fydd gweithdrefn ar gyfer adnewyddu'r dynodiad. Byddem yn croesawu eglurder yn hyn o beth. Rydym o'r farn bod y prosesau ar gyfer dileu dynodiad a amlinellir yn y bil drafft yn gadarn, ac er mwyn sicrhau bod modd cymharu a chael dilyniant mewn asesu ansawdd yn y tymor hir yng Nghymru, byddem yn croesawu petai'r bil yn eglur ac yn nodi y byddai'r dynodiad yn parhau oni bai y byddai amser yn dod pan fyddai Llywodraeth Cymru yn teimlo bod rheswm da dros ei ddileu.

Byddem yn croesawu, eglurder hefyd yn y bil ynglŷn a chwmpawd swyddogaeth y corff dynodedig, fel bod ganddo'r gallu i gynnal ystod eang o weithgareddau gwella sy'n gallu cefnogi'r sector addysg drydyddol gyfan mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill. Dylai'r corff fod yno, nid yn unig i gynnal adolygiadau cylchol, ond dylai fod yno i ddarparu dull gweithredu yn seiliedig ar wella a fydd yn gallu datblygu profiad myfyrwyr rhagorol yng Nghymru, gyda digwyddiadau, cyhoeddiadau a phrosiectau i gefnogi gwella dysgu ac addysgu a phrofiad myfyrwyr.

Er bod y bil drafft yn gwneud yn dda i hwyluso cydweithio a gwaith partneriaeth pellach ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru, byddem yn croesawu symudiadau hefyd i gael mwy o sôn yn y bil drafft am bwysigrwydd arbenigedd ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol wrth ganfod corff dynodedig posibl i oruchwylio ansawdd. Nid yw addysg uwch yng Nghymru yn sefyll ar ei ben ei hun, a bydd yn bwysig bod y Comisiwn yn cydnabod pwysigrwydd cymharu a chydweithio yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol wrth bennu'r corff ansawdd, fel y gall Cymru arwain y byd yn y dyfodol. Credwn y daw buddion o ddysgu gan ac ymgynghori gydag asiantaethau sicrhau ansawdd sy'n gweithio mewn systemau addysg drydyddol, megis Quality and Qualifications Ireland (QQI) a'r Hong Kong Council for Accreditation of Academic and Vocational Qualifications (HKCAAVQ). Mae gan QAA berthynas waith dda gydag asiantaethau fel hyn ledled y byd, trwy ei aelodaeth barhaus o rwydweithiau megis y Gymdeithas Ewropeaidd Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (ENQA) a Rhwydwaith Rhyngwladol Asiantaethau Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (INQAAHE), a byddai'n gallu cefnogi datblygiad dull gweithredu newydd yng Nghymru gyda chefnogaeth y partneriaethau a'r profiadau rhyngwladol hyn.

Nodwn hefyd y cynnig y dylai'r Comisiwn gynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, ac rydym yn croesawu y bydd amodau yn y gofrestr hon mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir.

Ymchwil ac arloesi

13. A ddylai swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi (adrannau 95-97) fod yn ehangach na darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yn unig?

☐	**Dylent**	☐	**Na ddylent**	☒	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Prentisiaethau

14. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am fframweithiau prentisiaethau (adrannau 104-107) a bydd Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am bennu a chyhoeddi gofynion craidd Manyleb Prentisiaethau Cymru (WAS) (adrannau 101-103). A ydych chi'n cytuno â'r cydbwysedd hwn o ran pwerau?

☐	**Ydw**	☐	**Nac ydw**	X	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Dim barn y naill ffordd na'r llall, oherwydd ein bod yn credu y bydd yn bwysig i'r Comisiwn gael rôl ganolog yn cefnogi ac yn goruchwylio prentisiaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai'r ddeddfwriaeth wneud mwy i gydnabod cymhlethdodau'r dirwedd, a darparu eglurder ynglŷn â chyfrifoldeb dros brentisiaethau lefel gradd (a elwir hefyd yn brentisiaethau addysg uwch).

Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn y datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn awgrymu mai mater i'r Prif Arolygydd fydd ansawdd prentisiaethau, er ei fod yn nodi ar dudalen 19 y bydd pwerau i ddiwygio'r cylch gorchwyl neu i'w wneud yn fwy eglur mewn ymateb i newidiadau nas rhagwelwyd i drefniadaeth, strwythur neu gyllido addysg a hyfforddiant yng Nghymru sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd neu arolygu prentisiaethau uwch, gan gynnwys prentisiaethau gradd. Hoffem weld eglurhad, i nodi y bydd y corff dynodedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn ymwneud â sicrhau ansawdd prentisiaethau lefel gradd neu addysg uwch, gyda lle hefyd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth trwy'r Comisiwn er mwyn sicrhau bod prosesau ansawdd yn gweithredu'n llyfn ar draws prentisiaethau o bob lefel.

Prentisiaethau

15. A yw'r Bil drafft (rhan 4) yn darparu sbardunau strategol digonol i ddatblygu a chynnal uniondeb prentisiaethau yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion diwydiant?

☐	**Ydy**	☐	**Nac ydy**	☒	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 14.

Anghenion yr economi a chyflogwyr

16. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i ystyried "gofynion rhesymol diwydiant, masnach, cyllid, proffesiynau a chyflogwyr eraill o ran addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi" (adran 2(1)(b)). Yn eich barn chi, a yw'r ddyletswydd hon yn ddigonol ac yn cael effaith ystyrlon fel ag y mae nawr?

X	**Ydy**		**Nac ydy**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ydy, ac rydym yn croesawu bod elfennau ehangach y gymdeithas yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu addysg a hyfforddiant trydyddol. Dylid annog cydweithredu ymhlith y sectorau er mwyn creu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr. Serch hynny, mae awtonomi sefydliadol hefyd yn bwysig, ac rydym yn nodi y cydnabyddir rhyddid academaidd sefydliadau yn 2(1)(g).

Cyllid

Canolbwyntio ar ddeilliannau:

17. Mae'r Bil drafft (adran 79) yn darparu ar gyfer dull ariannu sy'n seiliedig ar Gytundebau Deilliannau. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn, drwy ei benderfyniadau cyllido a thrafodaethau â chyrff a gyllidir, gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil. Gweler y Memorandwm Esboniadol am fanylion y bwriad polisi sy'n sail i'r cytundebau deilliannau (paragraffau 3.56 - 3.58 a 3.145 - 3.147). A yw'r dull hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng blaenoriaethau cyllid strategol ac anghenion darparwyr dysgu unigol?

X	**Ydy**		**Nac ydy**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ydy, ond ar yr amod y bydd cymesuroldeb o ran y baich biwrocrataidd. Bydd yn bwysig cael elfen o hyblygrwydd gyda darparwyr mewn perthynas â'r broses, oherwydd, er y gall yr amcanion yr anelir atynt fod yn uchelgeisiol, mae'n bwysig nad yw darparwyr yn cael eu cosbi am fod yn uchelgeisiol yn eu Cytundeb Deilliannau a methu â chyflawni eu holl dargedau uchelgeisiol. Mae cytundebau deilliannau a gynllunnir yn dda, gydag amcanion tymor hir a gytunwyd yn gefn iddynt, sy'n amlinellu uchelgeisiau dros fwy na blwyddyn, yn darparu modd hyblyg, strwythuredig - ond eto'n ymatebol - i gydlynu cynnydd ar lefel genedlaethol tra bydd awtonomi a chymeriad darparwyr unigol o fewn y system yn cael eu parchu.

Rydym yn croesawu'r iaith a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth ddrafft sy'n dweud y "gall" fod angen cytundeb deilliannau. Mae pandemig COVID-19 wedi dangos y gall fod angen elfennau o hyblygrwydd wrth geisio canfod trefniadau ar adegau penodol, a dylai unrhyw system sydd â chytundebau deilliannau ganiatáu hyblygrwydd i addasu i sefyllfaoedd newydd pan fo angen.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

18. Mae goblygiadau ariannol y Bil drafft wedi'u hamlinellu yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol drafft. Yn eich barn chi, a oes angen i'n manylion ni o ran costau ystyried unrhyw beth arall?

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Oes. Er bod y memorandwm esboniadol yn nodi y bydd gan y corff dynodedig ar gyfer addysg uwch y pŵer i godi ffioedd ar ddarparwyr addysg uwch, fel y gwneir o dan y trefniadau presennol rhwng darparwyr addysg uwch a QAA, ni welir unrhyw awgrym o gyfleoedd i gyllid mwy uniongyrchol, neu wedi'i dargedu, gael ei ddarparu gan y Comisiwn i'r corff ansawdd i gefnogi gweithgaredd gwella ar gyfer y sector. Er enghraifft, dyrannodd HEFCW gyllid i QAA yng Nghymru yn y gorffennol ar gyfer gweithgaredd gwella o 1997 hyd at 2016, ac yn yr Alban, mae QAA yn parhau i dderbyn cyllid gan Gyngor Cyllido'r Alban er mwyn cynnal gweithgareddau gwella penodol, megis y Themâu Gwella a'r Gynhadledd Gwella flynyddol, sydd wedi bod o gymorth mawr i'r sector wrth iddynt weithio i wella eu profiadau myfyrwyr. Mae sgyrsiau gyda rhanddeiliaid yng Nghymru wedi dangos y byddent am weld dull gweithredu ar gyfer ansawdd addysg uwch yng Nghymru sy'n seiliedig ar wella i raddau mwy, a byddai cyllid wedi'i ddarparu gan y Comisiwn i hwyluso hynny yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

19. Byddem yn hoffi i chi ystyried y costau a'r manteision posibl i gyrff, sefydliadau neu unigolion penodol o ganlyniad i'r Bil drafft. Nodwch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth yma:

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

I ychwanegu at ein hymateb i Gwestiwn 18, byddai cyllid pellach gan y Comisiwn i'r corff dynodedig ar gyfer addysg uwch yn galluogi ehangu ar weithgaredd pwrpasol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth yng Nghymru. Ar hyn o bryd, cyfyngedig yw capasiti QAA ar gyfer gwaith y tu hwnt i'r adolygiadau; byddai cyllid pellach yn gallu arwain at ehangu'r gwaith hwn ac yn galluogi gweithgaredd gwella wedi'i dargedu'n fwy penodol yn y sector, megis Themâu Gwella Cymru wedi'u hysgogi gan y sector a Chynadleddau Gwella ar gyfer y sector yng Nghymru. Byddai cyllid ychwanegol yn gymorth i hwyluso rhagor o gydweithio rhwng addysg bellach ac addysg uwch ym maes sicrhau a gwella ansawdd hefyd, gan esgor ar gyfleoedd i gael addysg o ansawdd uchel yn fwy cyson ar draws y sector trydyddol, a gwell profiad myfyrwyr.

Normal newydd

20. A ydych chi'n meddwl bod y pandemig yn codi materion penodol ar gyfer unrhyw beth a gynigir yn y Bil drafft?

☐	**Ydw**	☐	**Nac ydw**	☒	**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ydym a nac ydym. Mae'n ymddangos y gallai'r cynigion hyn weithio ar gyfer sector trydyddol sy'n hyblyg ac yn gallu darparu addysg ar-lein pan fo angen. Yr hyn mae'r pandemig wedi'i ddangos yw bod rhaid caniatáu ar gyfer hyblygrwydd yn y ddarpariaeth bob amser (ar yr amod ei bod yn parhau i fod o ansawdd uchel), gyda hyblygrwydd yn y cyllido hefyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn yn y dyfodol allu darparu cyllid argyfwng ar fyr rybudd petai argyfwng arall yn codi yn y dyfodol.

Diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

21. Mae'r Bil yn gyfrwng deddfwriaethol i greu corff newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. A oes unrhyw ddulliau eraill y gellir eu defnyddio i gyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen i wireddu nodau agenda diwygio AHO.

X	**Oes**		**Nac oes**		**Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Oes. Rydym o'r farn y gallai'r corff ansawdd dynodedig ar gyfer addysg uwch gael rôl yn hwyluso mwy o gydweithio ar draws y sector addysg uwch trwy weithgareddau a digwyddiadau'n seiliedig ar wella, a allai ganolbwyntio nid yn unig ar sut i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu, ond ar sut i sicrhau profiad myfyrwyr rhagorol yn ogystal. At hynny, byddai gwaith ar y cyd rhwng Estyn a'r corff ansawdd dynodedig yn gallu canolbwyntio ar bontio'n llyfn ar draws y sector trydyddol, a dealltwriaeth eang o'r llwybrau amrywiol sydd ar gael i ddysgwyr eu troedio. Gallai rannu arfer gorau ar draws sectorau, helpu i chwalu rhwystrau, a hwyluso gweithgaredd megis hyfforddiant ar y cyd i staff, neu adolygiadau thematig ar faterion sydd o ddiddordeb ar draws sectorau gwahanol. Byddai adnoddau gan y Comisiwn i gefnogi'r dulliau gweithio hyn yn cael ei groesawu.

22. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bryderon nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu rhannu â'r cyhoedd, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych ymateb yn ddienw, ticiwch yma: ☐